

Gras

Darllen: Effesiaid 2:8

Wrth deithio ar drên, mae'n rhwydd iawn gweld bod pobl yn cael eu trin yn wahanol. Ar un achlysur pan oedd y trên yn llawn dyma rai o'r teithwyr yn mentro mynd i'r cerbyd blaen, oedd yn weddol wag. Ymhen dim, dyma'r casglwr tocynnau heibio a mynnu bod pob un oedd wedi mentro i'r cysegr sancteiddiolaf hwnnw'n talu pris dosbarth cyntaf. Er bod y trên yn orlawn, a bod digonedd o le yn y cerbyd dosbarth cyntaf, mynnu codi crochbris arnyn nhw wnaeth y swyddog neu eu gorfodi i fynd i sefyll gyda'r gweddill yn y cerbydau eraill. Mae'r hyn a ddigwyddodd ar y trên hwnnw'n ddelwedd ac yn esiamp! o'r ffordd y caiff pobl eu gosod mewn dosbarthiadau - y rhai y mae ganddyn nhw ddigon o arian a'r rhai nad oes ganddyn nhw ond ychydig. Roedd pawb yn teithio i'r un cyfeiriad, ond doedden nhw ddim yn cael eu trin yr un fath. Fel arfer yn y byd hwn, fe gewch yr hyn yr ydych yn barod i dalu amdano.

Ond mae yna egwyddorion hollol wahanol i Efengyl Iesu Grist. Mae gweinidogaeth Iesu yn ein harwain i newid ein syniadau'n llwyr. Yn ôl egwyddorion y Deyrnas, gwir fawredd yw'r gost o roi ein hunain yn llwyr i eraill; fel y gwneir wrth olchi traed llychlyd. Mae'r byd yn mesur gwerth bywyd yn nhermau gweithredu – cystadlu, cyrraedd nod a beirniadu. Ond mae Iesu'n mesur ei werth yn nhermau bodolaeth – gwrando, llawenhau yng ngwerthoedd ac yn rhoddion pobl eraill, a rhannu yn eu profedigaethau. Gweld yr 'arall' a wna Iesu bob tro. A chan mor anodd yw hi i ni amgyffred yr egwyddorion hyn mae Iesu, dro ar ôl tro, yn defnyddio storïau er mwyn dangos i ni beth i'w wneud a sut i ymddwyn. Er enghraifft, mae'n sôn am ddarganfod trysor neu berl gwerthfawr mewn cae, a'r llawenydd o ddarganfod rhywbeth a fu ar goll. Mae'n dweud bod llawenydd Duw yn union fel llawenydd y rhiant sy'n gweld ei blentyn yn dod adref ar ôl blynyddoedd yn y wlad bell. Mae'n dweud am wledd y caiff pawb ei drin yr un fath ynddi – y tlawd a'r cyfoethog yn eistedd ochr yn ochr. Does yna ddim 'dosbarth cyntaf' ar drenau'r Deyrnas!

Mae'r hyn a ddarllenwn yn y Testament Newydd am weinidogaeth Iesu yn dangos ei fod benben â'r awdurdodau crefyddol; roedd y Phariseaid a'u tebyg yn cael eu tramgwyddo am ei fod ef yn ymwneud â gwehilion cymdeithas. Ond dro ar ôl tro, mae Iesu'n dweud bod rhaid i bawb sy'n meddwl y byddan nhw'n hawlio eu lle yn y Deyrnas trwy eu gweddiâu a'u hymddygiad a'u presenoldeb yn oedfaon y Sul ailfeddwl yn ddybryd – hyd yn oed y bobl dda a pharchus. Dychmygwn y mab hynaf yn Nameg y Mab Afradlon yn cwyno ac yn dadlau â'i dad, 'Yr holl ganu a'r dawnsio a lladd y llo pasgedig, ac yntau wedi gwario dy arian yn y wlad bell. A minnau yma wedi llafurio'n galed bob dydd a gwneud fy ngorau, heb anufuddhau erioed i'th orchymyn. Chefais i ddim hyd yn oed myn gafr na charped coch.' Mae ymateb y tad yn glir, 'Fy mhlentyn ... yr wyt ti bob amser gyda mi, ac y mae'r cwbl sydd gennyf yn eiddo i ti' (Luc 15:31). Mae Duw, yn eithafion ei haelioni, yn caru'r ddau. Yn y Deyrnas, does dim lle i genfigen, eiddigedd na balchder ysbrydol. Gras sy'n teyrnasu, a dim arall.

Myfyrdod pellach:

Ydych chi'n credu bod yr Eglwys, hyd yn oed, wedi camddeall neges ganolog Iesu?

Beth yn eich barn chi yw egwyddorion y Deyrnas? Ydi neges y Bregeth ar y Mynydd (Mathew 5–7) yn mynd i helpu?